

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
17 Ionawr 2024

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

1.1 Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024 ("**y Gorchymyn**") yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("**Gorchymyn 2018**"), sy'n dynodi cyrff mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Effaith y Gorchymyn yw rhoi Atodlen newydd yn lle'r Atodlen i Orchymyn 2018. Bydd yr Atodlen newydd yn mewnosod pedwar corff newydd yn y rhestr o gyrff dynodedig sydd wedi ei chynnwys yn yr Atodlen i Orchymyn 2018, yn diweddarau enwau dau gorff a ddynodwyd yn flaenorol ac yn ychwanegu'r rhifau cwmni ar gyfer deg corff a ddynodwyd yn flaenorol. Diben y dynodiadau newydd yw galluogi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio i gael ei chynnwys mewn cynnig Cyllideb.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Mae adran 126A(9) a (10) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("**Deddf 2006**") yn darparu y gall y Gorchymyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol neu'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

2.2 Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o'r farn y dylai'r Gorchymyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol gan nad oes unrhyw ffactorau sy'n awgrymu y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Gorchymyn yn dynodi cyrff at ddibenion cynnwys mewn cynnig Cyllideb wybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio. Bydd cynnwys adnoddau'r cyrff dynodedig yn y cynnig Cyllideb yn lleihau'r anghysondebau alinio rhwng y Gyllideb, y cynnig Cyllideb a'r cyfrifon cyfunol, ond ni fydd yn cael unrhyw effaith ar derfynau adnoddau'r cyrff hynny. Felly, gellir ystyried mai gweinyddol yw pwnc y Gorchymyn gan mai effaith gyflwyniadol fydd iddo o ran y Gyllideb.

2.3 I'r gwrthwyneb, mae ffactorau sy'n tueddu i gefnogi'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol yn cynnwys achosion pan fo'r ddeddfwriaeth yn golygu gwariant sylweddol gan y llywodraeth. Nid yw'r Gorchymyn yn arwain at wariant sylweddol gan y llywodraeth.

2.4 Mae adran 126A(3) o Ddeddf 2006 yn caniatáu i gorff gael ei ddynodi am flwyddyn ariannol benodol, neu ei ddynodi'n gyffredinol. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o'r farn y dylai'r cyrff y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddynt barhau i gael eu dynodi "yn gyffredinol". Mae hyn yn unol â'r holl orchmynion blaenorol ac yn golygu y bydd y cyrff yn parhau i gael eu dynodi ac na fydd angen eu dynodi'n flynyddol.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae adran 126A(1) o Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir i gorff dynodedig eu defnyddio mewn perthynas â pherson perthnasol mewn cynnig Cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddynodi cyrff at y diben hwn drwy orchymyn yn rhinwedd adran 126A(2) a (3) o Ddeddf 2006. Gwneir y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 126A(2)(a) a (3) o Ddeddf 2006.
- 3.2 Yn unol ag adran 126A(6) o Ddeddf 2006, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Thrysorlys EF ("**y Trysorlys**") ar y cyrff sydd i'w dynodi yn y Gorchymyn. Yn unol ag adran 126A(4) o Ddeddf 2006, mae Gweinidogion Cymru wedi ceisio ac wedi sicrhau cydsyniad y Trysorlys cyn gwneud y Gorchymyn.
- 3.3 Mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 126A(9) o Ddeddf 2006.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

#### Y Cefndir

- 4.1 Ym mis Mawrth 2015, argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad, fel rhan o'i ymchwiliad i Arferion Gorau o ran Prosesau'r Gyllideb, "*y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru i helpu i sicrhau bod y broses o alinio'r gyllideb a chyfrifon Llywodraeth Cymru â ffin gyllidebol y Trysorlys yn cael ei chwblhau'n brydlon ac yn llwyddiannus*".
- 4.2 O dan y trefniadau presennol, mae 3 prif ddogfen sy'n nodi sefyllfa ariannol y cyrff a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru;
- y Gyllideb i gynllunio, monitro a rheoli incwm a gwariant;
  - y cynigion Cyllideb Flynyddol ac Atodol i gael cymeradwyaeth Senedd Cymru ar gyfer incwm a gwariant; ac
  - ar ôl diwedd y flwyddyn, y Cyfrifon Cyfunol, i adrodd am incwm a gwariant a rhoi cyfrif amdanynt.
- 4.3 Dylai ffiniau pob un o'r dogfennau hyn, hynny yw incwm a gwariant y cyrff sydd wedi eu cynnwys, fod yn ddigon tebyg i ddeall y cysylltiadau a'r rhyngberthynas sydd rhyngddynt. Mae hyn yn hybu tryloywder gwariant cyhoeddus Llywodraeth Cymru a dealltwriaeth ohono.
- 4.4 Bydd alinio'n sicrhau bod cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffin ar gyfer y cynigion Cyllideb ag a ddefnyddir gan y Trysorlys ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus, pan fo'r cyrff hynny'n rhai dynodedig a pherthnasol. Bydd alinio'n golygu bod cwmpas y prif fecanweithiau rheoli yn gyson. Cywirodd y ddau gam alinio cyntaf y gwahaniaethau perthnasol. Mae

sicrhau bod pob corff llywodraeth ganolog newydd yn cael ei alinio yn atal camaliniio yn y dyfodol.

## Diben

4.5 Mae'r Gorchymyn yn diwygio Gorchymyn 2018 sy'n dynodi cyrff penodedig mewn perthynas â Gweinidogion Cymru er mwyn cynnwys mewn cynnig Cyllideb yr adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio. Effaith y Gorchymyn yw rhoi Atodlen newydd yn lle'r Atodlen i Orchymyn 2018. Bydd yr Atodlen newydd yn mewnosod pedwar corff newydd yn y rhestr o gyrff dynodedig sydd wedi ei chynnwys yn yr Atodlen i Orchymyn 2018, yn diweddarau enwau dau o'r cyrff a ddynodwyd yn flaenorol ac yn ychwanegu'r rhifau cwmni ar gyfer deg corff a ddynodwyd yn flaenorol.

## **Effaith**

4.6 Bydd dynodi'r cyrff yn y Gorchymyn yn caniatáu alinio'r cynigion Cyllideb yn agosach â Ffin Cyfrifon Cyfunol bresennol Llywodraeth Cymru. Felly, gall yr adnoddau y disgwylir i'r cyrff dynodedig eu defnyddio gael eu cynnwys mewn cynnig Cyllideb.

4.7 Mae'r Gorchymyn felly'n alinio ffin cyllideb y Trysorlys â'r cynigion Cyllideb ac â Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, gan alluogi olrhain gwariant yn haws drwy broses y cynigion Cyllideb a'r Cyfrifon Cyfunol. Mantais hyn fydd rhoi mwy o dryloywder a dealltwriaeth ynghylch gwariant cyhoeddus Cymru, gan ei gwneud yn haws i Senedd Cymru, a'r cyhoedd yn ehangach, ddeall a herio cynlluniau gwario ac alldro. Yn ei dro, dylai hyn helpu i wella cyfranogiad ac ymwybyddiaeth o ran gwariant cyhoeddus yng Nghymru, gan gyfrannu'n anuniongyrchol at nodau llesiant.

4.8 Mae'r Gorchymyn yn arwain at ddull mwy effeithlon o ran craffu ar gynigion Cyllideb gan y Pwyllgor Cyllid ac ar y cyfrifon cyfunol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan y bydd amrywiannau rhwng y gyllideb a'r alldro yn fwy cyson. Yn ogystal, bydd nifer y cysoniadau sy'n ofynnol o fewn yr atodlenni sy'n cefnogi'r cynigion Cyllideb yn cael eu lleihau.

4.9 Ni fyddai unrhyw effaith ar gyllidebau'r Prif Grwpiau Gwariant a byddai'r effaith ar baratoi'r cyfrifon cyfunol yn gyfyngedig.

4.10 Nid yw'r Gorchymyn yn diwygio nac yn cydgrynhoi unrhyw ddarn arall o ddeddfwriaeth.

## **5. Ymgynghori**

5.1 Nid ystyrir bod ymgynghoriad ar wahân yn gymwys ar gyfer y Gorchymyn gan fod ymgynghori helaeth yn cael ei gynnal â swyddogion fel rhan o'r broses arferol o sefydlu corff newydd. Yn ogystal, mae ymgynghori helaeth eisoes wedi cael ei gynnal â swyddogion o bob parti fel rhan o

ymgyngoriad yn targedu'r holl gyrrff hyd braich presennol a gynhaliwyd ym mis Mai 2019.

- 5.2 Ymgynghorwyd â'r Trysorlys yn unol ag adran 126A(6) o Ddeddf 2006 ar y cyrrff y cynigir eu dynodi. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi cael cydsyniad y Trysorlys yn unol ag adran 126A(4) o Ddeddf 2006.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

- 6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi i gyd-fynd â'r Gorchymyn; ni ddisgwylir iddo arwain at unrhyw gostau nac arbedion i'r sectorau cyhoeddus, preifat, elusennol na gwirfoddol. At hynny, gorchymyn technegol yn unig ydyw i gynyddu tryloywder o ran adrodd am sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â hynny, mae'r penderfyniad i beidio â pharatoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gyson â Chod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.
- 6.2 Mae'r cyrrff sydd i'w dynodi yn y Gorchymyn yn rhan o reolaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn barod ac felly mae Grwpiau Llywodraeth Cymru eisoes yn monitro'r gwariant yn ystod y flwyddyn.